



WELSH
NATIONAL
OPERA
CENEDLAETHOL
CYMRU

Edrych Yn Ôl Symud Ymlaen

Looking Back Moving Forward



**Wrth i Dymor yr Haf Opera
Cenedlaethol Cymru ddirwyn i
ben ac wrth i ni fwrw ymlaen â'n
cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer
yr Hydref, rydyn ni'n cymryd
munud i edrych yn ôl ac ystyried
uchafbwyntiau'r Cwmni yn 2023
hyd yma.**

**As Welsh National Opera's
Summer Season draws to a close
and we move forward with our
ambitious plans for Autumn, we
are taking a moment to look back
and reflect on the Company's
highlights from 2023 so far.**

Edrych Yn Ôl Looking Back

Allgymorth Outreach

Iechyd

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd Opera Cenedlaethol Cymru ei fod yn ehangu ei raglen COVID Hir **Lles gyda WNO**. Mae pob un o'r saith bwrdd iechyd ledled Cymru bellach yn gallu cynnig y rhaglen i gleifion drwy wasanaeth COVID Hir y GIG, sydd ar gael i'w rhagnodi gan Feddygon Teulu ledled y wlad.

Mae'r rhaglen, sy'n defnyddio technegau anadlu a ddefnyddir gan gantorion opera hyfforddedig i drin symptomau COVID Hir, yn rhedeg am chwe wythnos ar y tro, gyda chyfranogwyr yn mynchu sesiynau o bell drwy Zoom. Mae hyn yn gwneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch, yn enwedig i'r rheini sydd yn dioddef blinder.

Ym mis Mawrth, rhoddodd The Guardian sylw i'r prosiect mewn erthygl a oedd yn cynnwys cyfweidiadau gydag amrywiol gyfranogwyr ac Arweinydd Lleisiol WNO, Kate Woolveridge.

Health

In January, Welsh National Opera announced the expansion of its Long-COVID programme **Wellness with WNO**. All seven health boards across Wales are now able to offer the programme to patients through the NHS Long-COVID service, available to be prescribed by General Practitioners nationwide.

The programme, which utilises breathing techniques used by trained opera singers to treat the symptoms of Long-COVID, runs for six weeks at a time, with participants attending sessions remotely via Zoom. This makes the service more accessible, particularly for those with fatigue.

In March, The Guardian covered the project in a feature which included interviews with various participants and WNO Vocal Leader Kate Woolveridge.

Bu'r cyfranogwr o Ogledd Cymru, Donna Jenkins, hefyd yn trafod ei phrofiad yn Agenda Cymru, gan ddweud, '**Technegau fel y rhain sy'n fy helpu i reoli fy anhawster anadlu ac sy'n lleihau'r angen am ofal clinigol yn sylweddol.**'

Canmolodd Gweinidog Iechyd Cymru, Eluned Morgan, y prosiect: '**Mae wedi bod yn galonogol gweld llwyddiant prosiect Lles gyda WNO a'r manteision sylweddol y mae wedi'u darparu i iechyd a lles pobl.**'

Ym mis Mehefin, addaswyd y gwasanaeth ar gyfer prosiect ieuenciad a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe. Cafodd technegau a ddefnyddiwyd yn y sesiynau COVID Hir eu rhoi ar waith mewn gweithdai ar gyfer pobl ifanc yn Ysgol Gyfun Pontarddulais i drin gorbryder ar ôl COVID. Y cynllun peilot hwn yw'r cyntaf o nifer o fentrau rhagnodi cymdeithasol arfaethedig, gyda **Lles gyda WNO** yn bwriadu symud i feisydd iechyd a lles eraill yn 2023/24.

North Wales participant Donna Jenkins also discussed her experience in the Welsh Agenda, stating, '**It's techniques like these that help me to be in control of my breathing dysfunction and significantly reduce the need for clinical care.**'

Welsh Health Minister Eluned Morgan praised the project: '**It has been heartening to see the success of the Wellness with WNO project and the significant benefits it has provided for people's health and wellbeing.**'

In June, the service was adapted for a youth project run by Swansea Bay Health Board. Techniques used in the Long-COVID sessions were implemented in workshops for young people at Pontarddulais Comprehensive School to treat post-COVID anxiety. This pilot scheme marks the first of a number of planned social-prescribing ventures, with **Wellness with WNO** aiming to move into other areas of health and wellbeing in 2023/24.



Tair Llythyren

Mae WNO wedi parhau â'i waith ar llyfr caneuon **Tair Llythyren**, prosiect a ddyluniwyd ar y cyd â Fast Track Cardiff i greu caneuon sy'n codi ymwybyddiaeth o realiti cyfoes HIV.

Y gân gyntaf i'w chwblhau ar gyfer y llyfr caneuon oedd 'We Learn, We Know, We Understand', sef ffrwyth gweithdai a gynhaliwyd gan yr ymgrychyd Mercy Shibemba yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd.

Eleni, profiad bywyd Mercy gyda HIV oedd y brif ysbrydoliaeth ar gyfer cân newydd sbon *All These Dreams* a ryddhawyd ym mis Mehefin ar bob un o'r prif lwyfannau ffrydio. Cafodd yr sengl, sy'n gydweithrediad ag Eädyth Crawford ac Aliyah Wiggins, ei perfformio'n fyw hefyd fel rhan o ddathliadau Pride Cymru yng Nghaerdydd.

Yn yr un mis, cafodd gwaith Mercy ei gydnabod yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin.



Aliyah Wiggins, Eädyth Crawford, Mercy Shibemba

Three Letters

WNO has continued its work on the **Three Letters** songbook, a project designed in collaboration with Fast Track Cardiff to create songs that raise awareness of the contemporary realities of HIV.

The first song to be completed for the songbook was 'We Learn, We Know, We Understand', a product of workshops held by activist Mercy Shibemba at Cardiff West Community High School.

This year, Mercy's lived experience of HIV served as the main inspiration for a brand-new song *All These Dreams* which was released in June on all major streaming platforms. The single, a collaboration with Eädyth Crawford and Aliyah Wiggins, was also performed live as part of the Pride Cymru celebrations in Cardiff.

In the same month, Mercy's work was recognised in the King's Birthday Honours List.





Ieuenctid

Ym mis Mai, hysbyswyd Opera Ieuencid WNO y byddent yn rhannu cymynrodd gwerth miliynau o bunnoedd ar ran y diweddar David a Phillipa Seligman. Bydd effaith yr etifeddiaeth hon nawr yn sicrhau bod Opera Ieuencid WNO yn gallu cyflwyno perfformiad mawreddog bob blwyddyn.

Dywedodd Paula Scott, cynhyrhydd Opera Ieuencid WNO yn Nation Cymru: '*Roedd David a Philippa Seligman yn gefnogwyr brwd Opera Ieuencid WNO, ac rydyn ni'n falch iawn o anrhyydeddu'r ddau drwy barhau â'n gwaith gydag artistiaid ifanc.*'

Cafodd y sioe fawreddog eleni, *The Pied Piper of Hamelin & The Crab That Played With The Sea* ei pherfformio ym mis Mehefin, gan ganolbwytio ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Cymerodd dros 80 o gantorion ifanc ran yn y cynhyrchiad, a oedd yn defnyddio nifer o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Roedd llawer o wisgoedd a phropiau'r sioe fawreddog yn eitemau perchnogaeth blaenorol neu wedi cael eu hail-bwrpasu o gynyrchiadau WNO yn y gorffennol.

Myfyriodd y dylunydd Céleste Langrée ar y broses yn Opera Wire, gan ddweud: '*Mae hon yn enghraift wych o sut gallwn ail-fframio ein safbwytiau am berfformio a'i wneud yn fwy ecogyfeillgar.*'

Youth

In May, WNO Youth Opera learnt they were to be the shared benefactors of a multi-million-pound bequest on behalf of the late David and Phillipa Seligman. The impact of this legacy will now ensure WNO Youth Opera are able to present a showcase performance every year.

WNO Youth Opera producer Paula Scott commented in Nation Cymru: '*David and Phillipa Seligman were passionate supporters of WNO Youth Opera, and we are delighted to be honouring them both by continuing our work with young artists.*'

This year's showcase *The Pied Piper of Hamelin & The Crab That Played With The Sea* was performed in June, with a focus on environmental sustainability. Over 80 young singers took part in the production, which made use of a number of recycled materials. Much of the showcase's costumes and props were previously owned items or repurposed from past WNO productions.

Designer Céleste Langrée reflected on the process in Opera Wire, stating: '*This is a great example of how we can reframe our views of performance and make it more environmentally friendly.*'

Disgrifiwyd y perfformiad fel '**charming double-feature**' mewn adolygiad pedair seren a gyhoeddwyd yn Buzz Magazine.

The performance was described as a '**charming double-feature**' in a four-star review published in Buzz Magazine.

Mewn Cymunedau

Parhaodd WNO â'i waith mewn cymunedau gyda rhaglenni parhaus fel **Cysur**, prosiect addysgol **Dewryny | Brave**, a sesiynau ymchwil a datblygu gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o'i raglen Sanctuary.

Mae **Cysur** yn brosiect celfyddydau sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n seiliedig ar gôr cymunedol i bobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Y Tymor hwn, parhaodd Côr Cysur yn Aberdaugleddau a chafodd côr newydd ei ffurfio yn Llandeilo. Fel rhan o'r rhaglen, cynhalwyd gweithdai ar gyfer plant ysgolion cynradd yng Ngorllewin Cymru i ddarparu gweithgareddau addysgol yn ymwneud â dementia, gan arwain at berfformiad cyhoeddus yn Theatr Torch.

Cynhaliodd **Dewryny | Brave**, prosiect a ddyfeisiwyd mewn partneriaeth â Galeri (Caernarfon) ac Invisible Traffic o Belfast, weithdai mewn ysgolion cynradd yng Ngogledd Cymru i addysgu plant am beryglon Caethwasiaeth Fodern a sut i

In Communities

WNO continued its work in communities with ongoing programmes such as **Cradle**, educational project **Dewryny | Brave**, and research and development sessions with refugee and asylum seekers as part of its Sanctuary programme.

Cradle is an intergenerational arts project based around a community choir for people living with dementia, their families and carers. This Season, the established Cradle Choir continued in Milford Haven and a new choir was formed in Llandeilo. As part of the programme, workshops were held for primary school children in West Wales to provide educational activities around the subject of dementia, culminating in a public performance at the Torch Theatre.

Dewryny | Brave, a project devised in partnership with Galeri (Caernarfon) and Belfast-based Invisible Traffic, ran workshops in primary schools in North Wales to educate children about the dangers of Modern-Day

gadw eu hunain yn ddiogel rhag camfanteisio. Perfformiodd y plant ganeuon yn Galeri ym mis Mawrth, gyda naratif yn seiliedig ar stori Brave Heather Lewis, gydag ensemble o gerddorion ac unawdydd soprano. Gwyliwch uchafbwyntiau'r prosiect yn ein nodwedd ddigidol.

Aeth gwaith y Cwmni gyda phobl sy'n ceisio noddfa yn ei flaen gyda WNO yn dyfeisio cyfres o weithdai ymchwil a datblygu, ar y cyd ag Oasis Caerdydd.

Roedd hyn yn dilyn llwyddiant *The Shoemaker*, sef opera wreiddiol a oedd yn edrych ar themâu dadleoli a berfformiwyd am y tro cyntaf yn ystod Hydref 2022. Yn fwyaf diweddar, bu'r bardd Iraniaidd Shara Atashi yn gweithio gyda WNO i gynnal sesiwn yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar sensoriaeth artistig yn Iran. Bwriad hyn yw bod yn sail i'r broses ddatblygu ar gyfer opera newydd gydag artistiaid o Iran sy'n byw yng Nghymru.

Slavery and how to keep themselves safe from exploitation. The children performed songs at Galeri in March, with narration based on Heather Lewis' Brave story, accompanied by an ensemble of musicians and soprano soloist. Watch highlights from the project in our digital feature.

The Company's work with people seeking sanctuary progressed with WNO devising a series of research and development workshops, in conjunction with Oasis Cardiff.

This followed the success of *The Shoemaker*, an original opera that explored themes of displacement which premiered in Autumn 2022. Most recently, Iranian poet Shara Atashi worked with WNO to hold a session at Wales Millennium Centre on artistic censorship in Iran. This is intended to inform the development process for a new opera made with Iranian artists living in Wales.



The Shoemaker Llun | Photo Craig Fuller

O Bydew y Gerddorfa

From the Orchestra Pit



Dychwelyd i Fienna

Dechreuodd Cerddorfa WNO 2023 gyda thaith **Dychwelyd i Fienna**, yn perfformio cyngherddau bywiog a chalonogol a oedd yn dathlu'r gorau o gerddoriaeth Fienna. Arweiniwyd y daith gyffrous hon ledled Cymru a Lloegr gan y Cyngerddfeistr David Adams, ac Artist Cyswllt WNO, Dafydd Allen, a oedd yn cynnwys darnau fel *Blue Danube* gan Strauss II a Pholca *Straussiana* hiraethus Korngold.

Return to Vienna

WNO Orchestra began 2023 with the **Return to Vienna** tour, performing lively and heart-warming concerts which celebrated the very best of Viennese music. Concertmaster David Adams and WNO Associate Artist Dafydd Allen led this exhilarating tour across England and Wales, featuring pieces such as *Blue Danube* by Strauss II and Korngold's nostalgic *Straussiana Polka*.



Má vlast

Yn ddiweddarach ym mis Ionawr, bu Cyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO, Tomás Hanus, yn arwain **Má vlast** (Gwlad fy Mebyd) gan Smetana yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Roedd hwn yn gyfle prin i glywed y gwaith '**dewr a dychmygus**' hwn (Nation Cymru) a sefydlodd enw da Smetana fel tad cerddoriaeth Tsiecaidd.

Roedd hwn yn rhagorweiniad i berfformiad y Gerddorfa yng Ngŵyl Cerddoriaeth Ryngwladol y Gwanwyn ym Mhrâg yn y Weriniaeth Tsiec ym mis Mai. Cafodd y cyngerdd agoriadol, a gyflwynwyd yn deyrnged i ddaucanmlwyddiant geni Smetana, ei ganmol gan Tomás fel '**cyfle i Gerddorfa WNO gymryd ei lle ymysg rhai o gerddorfeydd gorau'r byd.**'

Aeth eu perfformiad ymlaen i '**daro'r holl nodau cywir**' (Bachtrack) a chafodd ei ddisgrifio fel '**profiad teimladwy**' gan Tomás, moment a oedd wedi ei '**gludo'n ôl i'w blentyndod**'.

Canwr y Byd Caerdydd

Yn fwyaf diweddar, ymunodd Cerddorfa WNO â dathliadau BBC Canwr y Byd Caerdydd yn 40 oed ym mis Mehefin gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol WNO Aidan Lang yn Gadeirydd y Rheithgor. Dan arweiniad yr arweinydd gwobrwyog, Michael Christie, bu Cerddorfa WNO yn cyfeilio i gystadleuwyd yn rowndiau un a thri y gystadleuaeth lle enillodd Adolfo Corrado y brif wobr. Bu Cerddorfa WNO hefyd yn cyfeilio i'r cyn enillwyr a'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol mewn Cyngerdd Gala arbennig fel rhan o ddathliadau'r 40fed pen blaidd, dan arweiniad yr arweinydd, Pietro Rizzo.

Má vlast

Later in January, WNO Music Director Tomás Hanus conducted Smetana's **Má vlast** (My Homeland) at St David's Hall, Cardiff. This was a rare opportunity to hear this '**bold and imaginative**' work (Nation Cymru) which established Smetana's reputation as the father of Czech music.

This served as a prelude to the Orchestra's performance at the Prague Spring International Music Festival in the Czech Republic in May. The opening concert, presented in tribute to the bicentenary of Smetana's birth, was hailed by Tomás as '**an opportunity for WNO Orchestra to take their place amongst some of the best orchestras in the world.**'

Their performance went on to '**hit all the right notes**' (Bachtrack) and was described as a '**poignant experience**' by Tomás, and a moment which transported him '**back to childhood**'.

15

Cardiff Singer of the World

Most recently, WNO Orchestra joined the 40th-anniversary celebrations of BBC Cardiff Singer of the World in June with WNO General Director Aidan Lang serving as Chair of the Jury. Led by award-winning conductor Michael Christie, WNO Orchestra accompanied contestants in rounds one and three of the competition which saw Adolfo Corrado take home the main prize. WNO Orchestra also accompanied former winners and finalists for a special Gala Concert as part of the 40th-anniversary celebrations, led by conductor Pietro Rizzo.

Cerddoriaeth o'r Galon a Proms Cymru

Yr Haf hwn, dechreuodd Cerddoria WNO ar daith gyngerdd ledled Cymru a Lloegr mewn cyfres sy'n dwyn yr enw hyfryd **Cerddoriaeth o'r Galon**. Ymunodd y tenor Trystan Llŷr Griffiths a'r soprano Nadine Benjamin â'r Gerddorfa i berfformio darnau a oedd yn cyfleu dwyster cariad a'r teimladau o hiraeth a thor-calon.

Cofleidiodd yr arweinydd Matthew Kofi Waldren ysbryd y daith, gan gynnig profi curiad ei galon i weld pa ddarn cerddorol oedd wedi codi curiad ei galon fwyaf. Gwyliwch ein nodwedd ddigidol ddiweddar gyda Matthew i weld pa ddarn a wnaeth i'w galon guro gyflymaf.

Parhaodd y gweithgareddau Haf ym Mhroms Cymru yn Neuadd Dewi Sant, gyda Cherddorfa WNO yn diddanu cynulleidfaoedd hen a newydd gyda Prom Ffilmiau, oedd yn cynnwys cyfoeth o gerddoriaeth o rai o'r sgoriau mwyaf adnabyddus o Hollywood gan gynnwys *Jurassic Park*, *Gladiator* a *Harry Potter*. Yna bu i Gerddorfa WNO i gau'r wyl yn llwyddiannus yn *Noson Olaf Proms Cymru*, gyda'r unawdydd Shân Cothi, mewn rhaglen a oedd yn cynnwys *Swan Lake* gan Tchaikovsky a threfniadau o ganeuon Cymraeg traddodiadol poblogaidd.

Music from the Heart and the Welsh Proms

This Summer, WNO Orchestra embarked on a concert tour across England and Wales in a series affectionately titled **Music from the Heart**. Tenor Trystan Llŷr Griffiths and soprano Nadine Benjamin joined the Orchestra to perform pieces which embodied the intensity of love and conveyed feelings of longing and heartache.

Conductor Matthew Kofi Waldren embraced the spirit of the tour, offering up his pulse for testing to establish which musical piece raised his heart rate the most. Watch our recent digital feature with Matthew to find out which piece got his heart racing.

Summer activity continued at the Welsh Proms at St Davids' Hall, with WNO Orchestra delighting audiences old and new with a Movie Prom, featuring a wealth of music from some of the most recognisable Hollywood scores including *Jurassic Park*, *Gladiator* and *Harry Potter*. WNO Orchestra then successfully closed the festival at *Last Night of the Welsh Proms*, with accompanying soloist Shân Cothi, in a programme which included Tchaikovsky's *Swan Lake* and arrangements of popular traditional Welsh songs.



Cefn Llwyfan Backstage



Cardiff Theatrical Services (CTS)

Parhaodd is-gwmni WNO, CTS, i ddarparu gwasanaethau technegol allweddol i WNO a'r diwydiant ehangach, gan weithio gyda chwmniau theatr, opera, cerddoriaeth, dawns a chelfyddydau perfformio blaenllaw, atyniadau i ymwelwyr ac arddangosfeydd i greu golygfeydd godidog o'u gweithdyd yng Nghaerdydd.

Yn ogystal ag adeiladu setiau ar gyfer cynyrschiadau newydd WNO *Blaze of Glory!*, *The Magic Flute* a *Candide*, mae CTS hefyd wedi bod yn brysur eleni yn gweithio gyda dylunwyr a rheolwyr cynhyrchu i greu golygfeydd ar gyfer *The Sound of Music* gan Chichester Festival Theatre, *Don Giovanni* gan Glyndebourne, a *Guys and Dolls* gan Bridge Theatre London, ymmsg eraill.

Cardiff Theatrical Services (CTS)

WNO's subsidiary company, CTS, continued to provide key technical services to WNO and the wider industry, working with leading theatre, opera, musical, dance and performing arts companies, visitor attractions and exhibitions to create outstanding scenery from their Cardiff-based workshop.

As well as building sets for WNO's new productions *Blaze of Glory!*, *The Magic Flute* and *Candide*, CTS has also been busy this year working with designers and production managers to create scenery for Chichester Festival Theatre's *The Sound of Music*, Glyndebourne's *Don Giovanni*, and Bridge Theatre London's *Guys and Dolls*, amongst others.

The logo for Cardiff Theatrical Services (CTS) features the letters 'CTS' in a bold, red, sans-serif font. The 'C' is positioned on the left, the 'T' in the middle, and the 'S' on the right. A thick red vertical bar extends upwards from the top of the 'T' and 'S', and another shorter red vertical bar extends downwards from the bottom of the 'T' and 'S', creating a stylized bracket or frame around the letters.

Ar y Llwyfan On Stage

Blaze of Glory!

Agorodd Tymor y Gwanwyn WNO gyda'r performiad cyntaf erioed o opera newydd **Blaze of Glory!** Wedi ei gosod yn y 1950au, roedd y stori'n dilyn grŵp o lowyr o Gymru wrth iddynt ddechrau ar daith gerddorol i ailsefydlu eu côr meibion ar ôl trychineb glofaol lleol.

Ar ôl cydweithio'n llwyddiannus ar *Rhondda Rips it Up!* yn 2019 dychwelodd y cyfarwyddwr Caroline Clegg a'r librettydd Emma Jenkins i WNO ar gyfer y cynhyrchiad, gyda'r cyfansoddwr David Hackbridge Johnson a'r arweinydd Stephen Higgins. Roedd y soprano Rebecca Evans yn serennu fel Miss Nerys Price, ochr yn ochr â'r tenor Jeffrey Lloyd Roberts a ymgymeroedd â'r rôl meistr y côr, Mr Dafydd Pugh.

Ymunodd corau meibion lleol â'r cast a Chorws WNO ar y llwyfan ac oddi arno, gyda phob un yn cyflwyno performiad arbennig i gynulleidfa oedd yn y cynted cyn y performiad.

WNO's Spring Season opened with the world premiere of new opera **Blaze of Glory!** Set in the 1950s, the story followed a group of Welsh miners as they embarked on a musical journey to reform their male voice choir after a local mining disaster.

Following their successful collaboration on 2019's *Rhondda Rips it Up!* director Caroline Clegg and librettist Emma Jenkins returned to WNO for the production, joined by composer David Hackbridge Johnson and conductor Stephen Higgins. Soprano Rebecca Evans starred as Miss Nerys Price, alongside tenor Jeffrey Lloyd Roberts who took on the role of the chorus master, Mr Dafydd Pugh.

The cast and WNO Chorus were joined by local male voice choirs on and off stage, each delivering a special performance to audiences in the foyer prior to the performance.

'Laugh out loud funny!'
★★★★ The Times

'Utterly Thrilling'
★★★★ The Guardian

Drwy gyfuno harmonïau traddodiadol Cymreig, synau *a cappella* y 1950au, opereta, gospel a band mawr, roedd yn gynhyrchiad hybrid unigryw o ffuriau cerddorol, ac roedd yn llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfa oedd a beirniaid fel ei gilydd. Mewn adolygiad pum seren yn *The Stage*, roedd y cynhyrchiad yn cael ei alw'n '**Utterly Thrilling**', ac roedd *The Guardian* a *The Times* wedi rhoi pedair seren i'r cynhyrchiad, gyda'r olaf yn disgrifio'r cynhyrchiad fel '**Laugh out loud funny!**'

Cynhyrchwyd cyfres o bodlediadau arbennig yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer y cynhyrchiad, a oedd yn cynnwys cyfweliadau â'r cast a'r timau creadigol, yn ogystal ag aelodau o gorau meibion Dowlais a Blaenafon. Mae *The O Word* a *Cipolwg* ar gael i wrando arnynt drwy ein gwefan a gellir eu ffrydio hefyd drwy Spotify, Apple a Google Podcasts.

By combining traditional Welsh harmonies, *a cappella* sounds of the 1950s, operetta, gospel and big band, the production created a unique hybrid of musical forms, and was a resounding success with audiences and critics alike. In a five-star review from *The Stage*, the production was called '**Utterly Thrilling**', and *The Guardian* and *The Times* each awarded the production four-stars, with the latter describing it as '**Laugh out loud funny!**'

A special podcast series was produced in both Welsh and English language for the production, featuring interviews with the cast and creative teams, as well as members of Dowlais and Blaenavon male voice choirs. *The O Word* and *Cipolwg* are available to listen to via our website and can also be streamed via Spotify, Apple and Google Podcasts.



Blaze of Glory! Llun | Photo Kirsten Mcneran

The Magic Flute

Ym mis Mawrth, cafodd cynhyrchiad newydd o **The Magic Flute** gan Mozart ei berfformio am y tro cyntaf erioed gan WNO, gyda Tomáš Hanus yn arwain. Yn dilyn ei llwyddiant gyda *Cherry Town, Moscow* gan Opera leuenctid WNO, cafodd y fersiwn hwn o glasur Mozart ei gyfarwyddo gan Daisy Evans, a ail-weithiodd y libretto, gan roi elfen o drochi i ffefrynn operatig.

Rhannodd y tenor Trystan Liŷr Griffiths a Thando Mjandana rôl Tamino, a'r sopranos Raven McMillon ac April Koyejo-Audier yn perfformio am y tro cyntaf gyda WNO fel Pamina. Roedd Julia Sitkovetsky a Samantha Hay wedi rhannu rôl eiconig coloratwra Brenhines y Nos.

Gan ymgorffori elfennau ffantasi ac antur gydag elfen o gemau arcêd retro y 1980au, cafodd y cynhyrchiad ei ganmol gan Wales Arts Review am '**first-rate vocals alongside successful storytelling**'. Mewn adolygiad pedair seren yn y Morning Star, cafodd Daisy Evans ei chanmol am ei '**'sure touch for comedy' mewn cynhyrchiad 'that will bring joy to audiences of all ages'**'.

In March, WNO premiered a new production of Mozart's **The Magic Flute** conducted by Tomáš Hanus. Hot off the heels of her success with WNO Youth Opera's *Cherry Town, Moscow*, this version of the Mozart classic was directed by Daisy Evans, who reworked the libretto, putting an immersive spin on an operatic favourite.

Tenor Trystan Liŷr Griffiths and Thando Mjandana shared the role of Tamino, and sopranos Raven McMillon and April Koyejo-Audiger made their WNO debuts as Pamina. The iconic coloratura role, The Queen of the Night, was shared by Julia Sitkovetsky and Samantha Hay.

Incorporating elements of fantasy and adventure with a slice of retro 1980s arcade games, the production was praised by Wales Arts Review for '**first-rate vocals alongside successful storytelling**'. In a four-star review for the Morning Star, Daisy Evans was commended for her '**'sure touch for comedy' in a production that 'will bring joy to audiences of all ages'**'.

'first-rate vocals alongside successful storytelling'.

Wales Arts Review



The Magic Flute lluniau | Photos Craig Fuller



Candide

Ar ôl agor yng Nghaerdydd, aeth WNO ar daith gyda chynhyrchiad newydd o **Candide** Bernstein i Truro, Llandudno, Rhydychen, Birmingham ac Aberhonddu dros fisoedd yr Haf. Roedd hwn yn gynhyrchiad a oedd yn cynnwys cerddoriaeth, animeiddio a dawns ac yn cyfuno'r elfennau hyn â dychan gwleidyddol. Roedd yn adrodd stori cymdeithas a gafodd ei rhwygo ar wahân gan ryfel ac anghydraddoldeb, thema sydd yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd pan gafodd ei hysgrifennu gyntaf gan Voltaire yn 1759.

Dychwelodd yr arweinydd o America, Karen Kamensek, i WNO i arwain, ochr yn ochr â thîm creadigol gwobrwyog oedd yn cynnwys y cyfarwyddwr James Bonas, y dylunydd gwisgoedd, Nathalie Pallandre, y dylunydd setiau Thibault Vancraenenbroeck, a'r artist animeiddio fideo, Grégoire Pont.

Bu'r tenor Ed Lyon yn canu rôl teitl Candide, ynghyd â Claudia Boyle a oedd yn serennu fel Cunégonde, Madeleine Shaw a oedd yn canu The Old Lady, a Mark Nathan a gymerodd rôl Maximilian.

Roedd [The Stage](#) yn galw'r cynhyrchiad yn '**ingeniously witty**', gyda [The Arts Desk](#) yn canmol '**consistently excellent cast and chorus**' a '**the bounce, energy and immaculate timing**' o'r Gerddora.

After opening in Cardiff, WNO toured a new production of Bernstein's **Candide** to Truro, Llandudno, Oxford, Birmingham and Brecon across the Summer months. This was a production which embodied music, animation and dance and fused these elements with political satire. It told the story of a society torn apart by war and inequality, a theme that is as relevant today as it was when first written by Voltaire in 1759.

American conductor Karen Kamensek returned to WNO to conduct, alongside an award-winning creative team comprised of director James Bonas, costume designer Nathalie Pallandre, set designer Thibault Vancraenenbroeck, and video animation artist Grégoire Pont.

Tenor Ed Lyon sang the title role of Candide, accompanied by Claudia Boyle who starred as Cunégonde, Madeleine Shaw who sang The Old Lady, and Mark Nathan who took on the role Maximilian.

[The Stage](#) hailed the production as '**ingeniously witty**', with [The Arts Desk](#) celebrating WNO's '**consistently excellent cast and chorus**' and '**the bounce, energy and immaculate timing**' of WNO Orchestra.

'consistently excellent cast and chorus'

The Arts Desk

Symud Ymlaen
Moving Forward

Outreach Allgymorth

Yr Eisteddfod Genedlaethol, 5-12 Awst

Bydd WNO yn rhannu lle ar y Maes gyda
Tŷ Cerdd, Anthem Music, Making Music a
BBC NOW yn ystod wythnos Eisteddfod
Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Os ydych chi'n
bwriadu ymweld, dewch i ddweud *shw mae!*

Bydd Dafydd Allen, Artist Cyswilt WNO, hefyd
yn perfformio datganiad yn yr Eisteddfod ar
Iwyfan Encore ddydd Sul 6 Awst.

Clwb Canu

Yn ystod Gorffennaf ac Awst, bydd grŵp canu
newydd sbon yn cael ei lansio yng Ngogledd
Cymru o'r enw **Clwb Canu**. Bydd y grŵp
dwyieithog hwn o gantorian yn cael ei arwain
gan y bariton Caleb Rhys a'r tiwtor lleisiol
Scott Howarth, gyda sesiynau wythnosol yn
cael eu cynnal yn Galeri, Caernarfon.

Bydd pobl ifanc yn cael eu cyflwyno i
dechnegau lleisiol sylfaenol, ochr yn ochr â
gema'u magu hyder sy'n gallu helpu i wella eu
harferion perfformio a'u sgiliau cymdeithasol
mewn bywyd bob dydd.

Eisteddfod Genedlaethol, 5-12 August

WNO will be sharing a space on the Maes with
Tŷ Cerdd, Anthem Music, Making Music and
BBC NOW during the week of the Eisteddfod
Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. If you're
planning to visit, do come and say *shw mae!*

WNO Associate Artist Dafydd Allen will also
be performing a recital at the Eisteddfod on
the Encore stage on Sunday 6 August.

During July and August, a brand-new singing
group will be launched in North Wales called
Clwb Canu. This bilingual group of singers
will be led by baritone Caleb Rhys and vocal
tutor Scott Howarth, with weekly sessions
taking place at Galeri, Caernarfon.

Young people will be introduced to basic
vocal techniques, alongside confidence
building games that can help improve both
their performance practice and their social
skills in everyday life.





Cwta

Yn yr Hydref, bydd WNO yn treialu prosiect newydd – **Cwta | Compact** – sy'n arbrofi gyda ffurf opera draddodiadol.

La traviata Verdi fydd yr opera gyntaf i dderbyn triniaeth **Cwta | Compact**. Mae'r cynhyrchiad gwreiddiol wedi cael ei gwasgu i lai na 70 munud, gyda'r nod o ddenu newydd-ddyfodoliaid a'r rheini sydd ag anghenion hygrychedd a allai eu hatal rhag mynchu performiad opera ar raddfa lawn.

Gan gyfuno technegau adrodd straeon newydd a chyffrous, bydd cynulleidfaeodd yn cael eu twys drwy'r stori gan adroddwr integredig, gan gyfleu'r stori'n ddi-dor i bontio'r bwlc rhwng eiliadau cerddorol allweddol.

Ar gyfer y treial hwn, bydd gwahoddiad i gynulleidfaeodd o bobl ifanc o ysgolion yng Nghaerdydd (29 Medi), Llandudno (13 Hydref) a Plymouth (3 Tachwedd). Bydd cyfres o weithdai creadigol mewn ysgolion hefyd yn cael eu darparu ar gyfer myfyrwyr 11-14 oed i gyd-fynd â'r perfformiadau hyn.

Compact

In Autumn, WNO will pilot a new project – **Cwta | Compact** – which experiments with the form of traditional opera.

The first opera to receive the **Cwta | Compact** treatment will be Verdi's *La traviata*. The original production has been condensed to under 70 minutes, aiming to attract first-timers and those with accessibility needs that may prevent them attending a full-scale opera performance.

Incorporating new and exciting storytelling techniques, audiences will be guided through the story by an integrated narrator, seamlessly conveying the story to bridge the gap between key musical moments.

For this trial run, there will be invited audiences of young people from schools in Cardiff (29 September), Llandudno (13 October) and Plymouth (3 November). There will also be a series of creative workshops in schools provided for students aged 11-14 to accompany these performances.

31

Cysur

Gan adeiladu ar lwyddiant **Corau Cysur** yn Aberdaugleddau a Llandeilo, bydd **Côr Cysur** newydd yn cael ei sefydlu yn Llanelli fis Medi. Bydd pobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer sesiynau cynhwysol sy'n seiliedig ar gerddoriaeth a chanu.

Bydd y côr hwn yn darparu seibiant y mae mawr ei angen o heriau bob dydd sy'n gysylltiedig â dementia, ac yn ffordd gadarnhaol o ymgysylltu â'r gymuned.

Cradle

Building on the success of established Cradle Choirs in Milford Haven and Llandeilo, a new **Cradle Choir** will be established in Llanelli this September. People living with dementia, and their families and carers will be encouraged to sign up for inclusive sessions based around music and singing.

This choir will provide much needed respite from every day challenges associated with dementia and a positive means of engagement with the community.

O Bydew y Gerddorfa From the Orchestra Pit



32



33

Cyfres Caerdydd Glasurol

Yn ystod tymor yr hydref, bydd Cerddorfa WNO yn dychwelyd at Gyfres Caerdydd Glasurol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd dan arweiniad Cyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO, Tomáš Hanus. Mewn perfformiad ar 29 Hydref, bydd darnau fel *Symffoni Gyntaf* Brahms, ac agarawd *Romeo a Juliet* gan Tchaikovsky yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â *Phedair Cân Olaf* feistrolgar Richard Strauss, gyda'r soprano Chen Reiss yn eu canu.

Cardiff Classical Series

In Autumn, WNO Orchestra return to the Cardiff Classical Series at St David's Hall, Cardiff under the baton of WNO Music Director Tomáš Hanus. At a performance on 29 October, pieces such as Brahms's *First Symphony*, and Tchaikovsky's *Romeo and Juliet* overture will feature alongside Richard Strauss's masterful *Four Last Songs*, sung by soprano Chen Reiss.



Chwarae Opera YN FYW

34

Bydd Cerddorfa WNO hefyd yn parhau â'i chyfraniad i gyngherddau teuluol y Cwmni yr Hydref hwn gyda **Chwarae Opera YN FYW** (dydd Sadwrn 30 Medi – dydd Sadwrn 25 Tachwedd). Mewn sioe ar thema'r gofod dan arweiniad y cyflwynydd Tom Redmond, bydd cynulleidfaedd ifanc yn cael cipolwg hwylig a rhwngweithiol ar opera a cherddoriaeth glasurol.

Fel arfer, bydd y cyngerdd yn cael ei berfformio ochr yn ochr â gweithgareddau am ddim yn y cyntedd yng Nghaerdydd, ac mewn lleoliadau teithiol yn Llandudno, Bryste, Plymouth, Birmingham a Southampton. Tymor yr Hydref yw'r tro cyntaf i Chwarae Opera YN FYW ymweld â Bristol Hippodrome.

Play Opera LIVE

WNO Orchestra will also continue its contribution to the Company's family concerts this Autumn with **Play Opera LIVE** (Saturday 30 Sep – Saturday 25 Nov). In a space-themed show led by presenter Tom Redmond, young audiences will get a fun and interactive insight into opera and classical music.

As usual, the concert will be performed alongside free foyer activities in Cardiff, and across touring venues in Llandudno, Bristol, Plymouth, Birmingham and Southampton. This Autumn Season marks the first time that Play Opera LIVE has visited Bristol Hippodrome.

Gŵyl Gerddoriaeth Abergwaun

Bydd Cerddorfa WNO yn cloi'r Haf gydag ymddangosiad yng Ngŵyl Gerddoriaeth Abergwaun. Yma, bydd y Gerddorfa'n perfformio dau gyngerdd (dydd Iau 24 a dydd Gwener 25 Awst), gan ddod â cherddorion o safon fyd-eang i leoliadau ledled Sir Benfro er mwyn difyrru cynulleidfaedd.

Dan arweiniad David Adams, ac wedi ei perfformio gan Brif Chwaraewyr Cerddorfa WNO, bydd y rhaglen gyntaf yn cynnwys campwaith Copland *Appalachian Spring* a Vocalise gan Previn ar gyfer soprano, y soddgrwth a'r piano, ochr yn ochr â gweithiau gan Wagner, Martinů and Korngold.

Yn ystod yr wyl hefyd bydd Cerddorfa WNO llawn yn perfformio yng Nghadeirlan Tyddewi, dan arweiniad cyn Arweinydd Cyswllt Opera Cenedlaethol Cymru, Kerem Hasan, mewn rhaglen wedi'i hysbrydoli gan America sy'n cynnwys *Symffoni boblogaidd Rhif 9* Dvořák *From the New World, Knoxville: Summer of 1915* gan Samuel Barber, a'i *Second Essay for Orchestra*. Bydd y soprano Elizabeth Atherton yn ymuno â Cherddorfa WNO ar gyfer y ddau gyngerdd.

Fishguard Festival of Music

WNO Orchestra will round off the Summer with an appearance at Fishguard Festival of Music. Here, the Orchestra will perform two concerts (Thursday 24 and Friday 25 August), bringing world-class musicians to venues across Pembrokeshire to delight audiences.

Led by David Adams and performed by WNO Orchestra's Principal players, the first programme will include Copland's masterpiece *Appalachian Spring* and Previn's *Vocalise* for soprano, cello and piano, alongside works by Wagner, Martinů and Korngold.

The festival will also see the full WNO Orchestra perform at St Davids Cathedral, led by former WNO Associate Conductor Kerem Hasan, in an American-inspired programme featuring Dvořák's popular *Symphony No 9 From the New World*, Samuel Barber's *Knoxville: Summer of 1915* and his *Second Essay for Orchestra*. WNO Orchestra is joined for both concerts by soprano Elizabeth Atherton.

35

Ar y Llwyfan On Stage

Ainadamar

Bydd Tymor yr Hydref WNO yn agor gyda'r perfformiad cyntaf yng Nghymru o **Ainadamar** gan Osvaldo Golijov (Noson Agoriadol, Sadwrn 9 Medi). Gan gyfuno dawnsio flamenco ag opera, rydym yn dilyn bywyd y bardd a'r dramodydd o Sbaen Federico Garcia Lorca, fel y'i hadroddir drwy atgofion ei forwyn Margarita Xirgu.

Bydd y cynhyrchiad yn cael ei arwain gan enillydd Gwobr Olivier, Deborah Colker, sydd hefyd wedi gweithio gyda Cirque du Soleil ar gyfer Gemau Olympaidd Rio 2016, a bydd yn cael ei arwain gan Matthew Kofi Waldren, sy'n dychwelyd i WNO ar ôl llwyddiant *Migrations* a gafodd glod gan feirniad.

Y soprano Jaquelina Livieri sy'n canu fel Margarita, a Hanna Hipp sy'n ymgymryd â rol Federico. Mae Julieth Lozano-Rolong, sydd newydd ennill Gwobr y Gynulleidfa y Fonesig Kiri Te Kanawa, Canwr y Byd Caerdydd, hefyd yn ymuno â'r cast fel Nuria.

WNO's Autumn Season will open with the Welsh premiere of Osvaldo Golijov's **Ainadamar** (Opening Night, Saturday 9 September). Combining flamenco dancing with opera, we follow the life of Spanish poet and playwright Federico García Lorca, as told through the memories of his muse Margarita Xirgu.

Directed by Olivier Award winner Deborah Colker, who also worked with Cirque du Soleil for the Rio 2016 Olympics, the production will be conducted by Matthew Kofi Waldren, who returns to WNO after the success of the critically acclaimed *Migrations*.

Soprano Jaquelina Livieri sings Margarita and Hanna Hipp takes on the role of Federico. Newly-crowned Cardiff Singer of the World Dame Kiri Te Kanawa Audience Prize winner Julieth Lozano-Rolong also joins the cast as Nuria.



Ainadamar Llun | Photo courtesy of Scottish Opera



La traviata

Yn nes ymlaen ym mis Medi, bydd yr arweinydd Alexander Joel yn dychwelyd i WNO am y tro cyntaf ers Rigoletto yn 2019, i arwain cynhyrchiad enwog Syr David McVicar o **La traviata** Verdi (Noson Agoriadol, Iau 21 Medi).

Mae Sarah Crisp yn cyfarwyddo'r stori glasurol hon o gariad, sgandal a hunan-aberth sy'n seiliedig ar nofel Alexandre Dumas fils, *La Dame aux Camélias*.

Mae'r soprano Stacey Alleaume yn canu rôl y 'courtesan' Violetta Valéry sy'n gorfol aberthu ei bywyd moethus i'r bardd Alfredo Germont a chwaraeir gan y tenor David Junghoon Kim. Mae'r bariton Mark S Doss, sy'n cydweithio'n rheolaidd a WNO, yn dychwelyd i'r cwmni i ganu rhan Giorgio Germont, tad Alfredo.

Later in September, conductor Alexander Joel will return to WNO for the first time since Rigoletto in 2019, to conduct Sir David McVicar's acclaimed production of Verdi's **La traviata** (Opening Night, Thursday 21 September).

Sarah Crisp directs this classic tale of thwarted love, scandal and self-sacrifice based on Alexandre Dumas fils' novel, *La Dame aux Camélias*,

Soprano Stacey Alleaume sings the role of courtesan Violetta Valéry forced to trade in her extravagant life of luxury for poet Alfredo Germont played by tenor David Junghoon Kim. Regular WNO collaborator baritone Mark S Doss returns to the company to sing Giorgio Germont, Alfredo's father.

Bydd **Ainadamar** a **La traviata** yn agor yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd ym mis Medi, cyn cychwyn ar daith genedlaethol ledled Cymru a Lloegr drwy gydol yr Hydref.

Ainadamar and **La traviata** will open at Wales Millennium Centre, Cardiff in September, before embarking on a national tour across England and Wales throughout the Autumn.

Cysylltu Contact

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar ein gwaith, cysylltwch â:

For more information about any aspect of our work, please contact:

Rhys Edwards

Rheolwr Cyfathrebu | Communications Manager

rhys.edwards@wno.org.uk

Cadwch mewn cysylltiad â WNO | Keep in touch with WNO

wno.org.uk    



Cefnwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**

Elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr yw Opera Cenedlaethol Cymru (Rhif 221538). Ei hymddiriedolwr yw Welsh National Opera Ltd, cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (Rhif 454297).

Welsh National Opera is a Charity registered in England and Wales (Number 221538). Its trustee is Welsh National Opera Ltd, a company limited by guarantee registered in England and Wales (Number 454297).

Registered with /Cofrestrwyd gyda'r
**FUNDRAISING
REGULATOR**
**RHEOLEIDDWR
CODI ARIAN**